# <u>CYNGOR CYMUNED BUAN</u>

**Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 11 Tachwedd 2021 gafodd ei gynnal drw y gyfrwng sustem ZOOM**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:
Hughie Williams – Cadeirydd
Catherine Hughes
Philip Roberts
Rhys Jones – Is-gadeirydd
Tesni Wyn Jones
Dafydd Ll Williams
Wyn Davies
Einir Lewis
Anwen Davies – Cynghorydd Sirol
Angela Moore - Clerc
Rhian Holt – Cyn glerc

1. **Ymddiheuriadau** – Doedd neb yn ymddiheuro

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cadarnhawyd cofnodion 14Hydref 2021 yn gywir gan y Cynghorydd Einir Lewis ac eilwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts.

**3. Ymatebion i ohebiaeth**
Nid oedd ymatebion i ohebiaeth. Mae y Cynghorydd Anwen Davies am gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynglŷn â'r mater nad oedd trigolion wedi eu gwybyddu a m gau y lôn o Bryncynan i Cefn Leisiog.

**4. <u>Materion Ariannol</u>**

Derbyniwyd cysoniad y banc am y cyfnod 4 Hydref 2021 i 3 Tachwedd 2021 yn gywir yn y swm o £4384.34.

Bydd y sieciau isod yn cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y dyddiau nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Holt | £111.79 | Siec rhif 200643 |
| Angela Moore | £111.99 | Siec Rhif 200644 |
| Cyllid a Thollau ein Mawrhydi | £55.80 | Siec rhif 200645 |
| Seaside Signs | £30.00 | Siec rhif 200639 |
| S Arnott & F Jones (siec i F Jones) | £2100.00 | Siec rhif 200640 |
| Arfon Parry (Gwe letya) | £33.00 | Siec rhif 200641 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd (rhent cae Rhydyclafdy) | £1.00 | Siec rhif 200642 |
| Ambiwlans Awyr | £250.00 | Siec rhif 200646 |
| Cylch Meithrin Pentreuchaf | £250.00 | Siec rhif 200647 |

Bydd angen cael ail brisio torri'r gwair erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd cyfle i drafod hyn mewn cyfarfod eto cyn hynny.

**5. Materion Cynllunio**

Roedd un cais cynllunio i'w drafod:
Cais C21/1075/33/LL – Ty Cynan, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd. LL53 7YL – Pawb yn cefnogi dim gwrthwynebiad i'r cais.

**6. Datgan Diddordeb**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**7. <u>Materion er Gwybodaeth</u>**

Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

**8. <u>Unrhyw fater arall</u>**

**Defibrillators**

Bydd y clerc yn cofrestru'r defibrillators yn yr wythnos nesaf.

Y cynghorydd Wyn Davies eisiau trefnu noson i'r Ffermwyr Ifanc lleol yn Capel Ceidio. Wyn i drefnu dyddiad sy'n gyfleus efo'r Capel a Rhys.

**Llifogydd**

Teimlwyd bod Cyngor Gwynedd yn araf iawn yn cau y lon pan mae llifogydd. Dywedodd y Cynghorydd Anwen Davies ei bod wedi holi gael arwyddion fel ei bod hi yn gallu eu rhoi yno yn gynt ond ni fydd y Cyngor yn caniatau hyn oherwydd na fyddai yswiriant petai rhywbeth yn digwydd efo'r arwyddion.

**Cyfraniad Ariannol**

Derbyniwyd dau gais am gyfraniad ariannol a penderfynwyd fel a ganlyn:

Ambiwlans Awyr - £250.00
Cylch Meithrin Pentreuchaf - £250.00

**Materion Ffyrdd**

Cafwyd cwyn bod angen glanhau gwteri o Swyddfa Bost Boduan i Ty'n Coed a gofynwyd i'r clerc ysgrifennu at yr adran briffyrdd.

**Coeden Nadolig ym mhentref Rhydyclafdy**

Datganodd y Cadeirydd bod y goeden bresennol yn y pentref wedi marw a bod ganddo goeden yn ei ardd fyddai yn ei rhoi yn ei lle. Addawodd Rhys a Wyn helpu i dynnu'r hen goeden a phlannu yr un newydd er mwyn ei chael yn barod erbyn y Nadolig.

Daeth y cyfarfod i ben am 08:00 y.h.
Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 9 Rhagfyr 2021 drwy gyfrwng Zoom.